OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1466 (Cy. 258)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Tachwedd 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *15 Tachwedd 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *13 Rhagfyr 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan baragraff 11(3) a (4) o Atodlen 2 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Rhagfyr 2019.

### Gwybodaeth Benodedig

**2.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu gwybodaeth sydd i'w darparu i ddarpar ddeiliad contract(**2**) o dan baragraff 11 o Atodlen 2 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 ("y Ddeddf") cyn y telir blaendal cadw(**3**) i landlord neu asiant gosod eiddo a'r ffordd y mae rhaid darparu'r wybodaeth honno.

(2) Rhaid darparu'r wybodaeth a ganlyn i ddarpar ddeiliad contract—

(a) swm y blaendal cadw(**4**);

(b) enwi'r annedd y telir y blaendal mewn cysylltiad â hi;

(c) enw, cyfeiriad a rhif ffôn y landlord (ac os cyfarwyddir felly, yr asiant gosod eiddo) ac unrhyw gyfeiriad e-bost sydd ganddo neu ganddynt;

(**1**) 2019 dccc 2; *gweler* adran 28 am y diffiniad o "rheoliadau". Cyflwynir Atodlen 2 gan adran 9 o Ddeddf 2019.
(**2**) Yn rhinwedd rheoliad 3 o Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (Darpariaeth Drosiannol ar gyfer Tenantiaethau Byrddaliadol Sicr) 2019 (O.S. 2019/1151) (Cy. 201), mae cyfeiriadau yn Neddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 at ddeiliad contract i'w darllen fel cyfeiriadau at denant o dan denantiaeth fyrddaliadol sicr o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1988.
(**3**) *Gweler* paragraff 4 o Atodlen 1 i'r Ddeddf am y diffiniad o "blaendal cadw".
(**4**) O dan baragraff 4(c) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, ni chaiff blaendal cadw fod yn fwy na swm sy'n gyfwerth ag un wythnos o rent o dan y contract.

(d) natur a hyd y contract;

(e) dyddiad meddiannaeth arfaethedig;

(f) swm y rhent neu gydnabyddiaeth arall;

(g) cyfnod rhentu;

(h) unrhyw delerau contract ychwanegol arfaethedig neu addasiadau neu eithriadau arfaethedig i delerau sylfaenol neu atodol;

(i) swm unrhyw flaendal sicrwydd;

(j) a oes angen gwarantwr ac, os felly, unrhyw amodau perthnasol;

(k) gwiriadau geirda y bydd y landlord (neu'r asiant gosod eiddo) yn eu cynnal; ac

(l) gwybodaeth y mae ar y landlord neu'r asiant gosod eiddo ei hangen gan y darpar ddeiliad contract.

(3) Rhaid darparu'r wybodaeth i ddarpar ddeiliad contract yn ysgrifenedig a gellir ei rhoi yn bersonol neu ei hanfon naill ai drwy'r post neu ei darparu drwy ddulliau electronig os yw'r darpar ddeiliad contract yn cydsynio i'w chael yn electronig.

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

12 Tachwedd 2019

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi gwybodaeth y mae rhaid i naill ai'r landlord neu'r asiant gosod eiddo ei darparu i ddarpar ddeiliad contract, cyn y telir blaendal cadw. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn pennu'r ffordd y mae rhaid darparu'r wybodaeth.

Os na ddarperir yr wybodaeth yn rheoliad 2(2) i ddarpar ddeiliad contract cyn y telir blaendal cadw, ni chaiff y landlord ddibynnu ar yr eithriadau a nodir ym mharagraffau 8, 9 a 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 a rhaid ad-dalu'r blaendal cadw. Mae rheoliad 2(3) yn nodi'r ffordd y mae rhaid darparu'r wybodaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.